

Canolfan Bert Denning

Gwasanaeth Anghenion Arbennig ar gyfer
Oedolion gydag Anableddau Dybryd a Lluosog



Tîm Staff Canolfan Bert Denning

Mae tîm staff Canolfan Bert Denning yn cynnwys un arweinydd tîm a saith o Weithwyr Cefnogaeth Gymunedol.

Fel sefydliad, rydym yn cydlynu ac yn gweithio gyda swyddogion iechyd, cyrff preifat a'r Timau Anabledd Dysgu Cymunedol i sicrhau parhad yng ngofal pob unigolyn sy'n mynychu.

Mae'r holl staff o fewn yr uned yn cwblhau gwiriad DBS gorfodol cyn dechrau gweithio i'r Awdurdod.

Mae'r holl staff yn derbyn hyfforddiant gorfodol; rhoddir hyfforddiant arbenigol i adlewyrchu anghenion cymhleth yr unigolion a atgyfeirir i'r gwasanaeth i sicrhau eu bod yn gymwys i ddarparu gofal i bawb sy'n mynychu.

Gwasanaethau

Mae Canolfan Bert Denning yn cynnig amrywiaeth o gyfleusterau sydd ar gael drwy system atgyfeirio ar gyfer oedolion gydag anghenion corfforol/synhwyraidd dybryd a lluosog ledled Blaenau Gwent ac awdurdodau cyfagos. Gallwn ddarparu ar gyfer hyd at 17 lleoliad y dydd, rhwng 9am a 6pm.



Cyngor Bwrdeisdref Sirol

Blaenau Gwent

County Borough Council

Gwasanaethau Cymdeithasol

Therapi Dŵr

Mae gennym bwl therapi dŵr o fewn yr adeilad; gellir cyrraedd y pwll drwy ddefnyddio grisiau neu system hoist uwchben.

Mae'r pwll therapi dŵr ar gael i'w logi rhwng dyddiau Llun a dyddiau Sul.

Therapi Synhwyraidd

Mae ystafell synhwyraidd Snoezelen yn y ganolfan, sy'n hollol hygyrch drwy ddefnyddio system hoist uwchben. Mae'r cyfleusterau ar gael i'w llogi rhwng 4pm a 8pm dyddiau Llun-Gwener, ac ar benwythnosau.

Cegin/Ystafell Fwyta

Mae cegin fach yn yr ardal gyda mynediad i gyfleusterau coginio. Mae ciniawau ar werth bob dydd - darperir ar gyfer pob angen dietegol.

Cyfleusterau Gofal Personol

Mae'r holl gyfleusterau toiled/gofal o fewn yr adeilad yn hygyrch i unigolion gydag anghenion corfforol. Mae hoistiau olrhain uwchben a gwelyau newidiadau syrthio yn y ddwy brif ystafell ofal.



Gweithgareddau

Nod Canolfan Bert Denning yw gweithio gydag unigolion i ddynodi eu dewisiadau blaenorol, adeiladu ar sgiliau newydd a sgiliau personol, annog cyfranogiad ac ymgysylltu cymdeithasol a gweithio tuag at gyflawniad personol, pa bynnag mor fach neu fawr.

Mae'r holl raglenni gweithgaredd yn canolbwyntio ar y person a chânt eu cynllunio drwy gyfarfodydd rheolaidd gyda defnyddwyr gwasanaethau.

Mae'r gweithgareddau a gynigir yn cynnwys:

- Cynhwysiant digidol/iPad
- Ysgogiad synhwyraidd
- Therapi dŵr
- Mynediad i'r gymuned
- Crefftau therapiwtig
- Gweithgareddau corfforol
- Garddwriaeth



Darpariaeth cludiant

Mae cludiant ar gael i'r rhai yr aseswyd fod ganddynt angen.

Costau

Caiff y costau eu gosod yn flynyddol gan Gyngor Bwrdeisdref Blaenau Gwent.



Ffynonellau Cymorth

C2BG
Canolfan Gyswllt
Canolfan Ddinesig
Swyddfeydd Bwrdeisiol
Glynebwy
NP23 6XB



Ffôn: (01495) 315700

Os hoffech gael mwy o fanylion am ddarpariaeth anghenion arbennig ar gyfer pobl gydag anabledau dysgu, cysylltwch â:

Canolfan Bert Denning
Heol Warwick
Brynmawr
NP23 4AR

Tel: (01495) 315278

I dderbyn yr wybodaeth hon mewn Braille, print bras, yn electronig neu ar dâp sain cysylltwch â'r Swyddog Gwybodaeth ar (01495) 354630 os gwelwch yn dda.

Taflen AS019-3 Mai 2015
www.blaenau-gwent.gov.uk